Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Adroddiad a Gyflwynir i'r Trydydd Cynulliad 2003 to 2007

Cyflwyniad

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn seiliedig yn fras ar bortffolio'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn y Cynulliad ac mae ei ddarpariaeth yn Rheol Sefydlog 9 y Cynulliad i ystyried datblygu polisi, craffu ar y Gweinidog a chyrff a Noddir gan y Cynulliad; craffu ar ddeddfwriaeth a chynghori ar ddyraniadau'r gyllideb. Mae'r portffolio'n cynnwys rhaglenni'r llywodraeth ar gyfer adfywio cymunedau Cymru ac yn benodol y cymunedau hynny sy'n ddioddef yr anfanteision mwyaf yn cynnwys rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, mentrau gwrthdlodi, yr economi gymdeithasol, y sector wirfoddol, diogelwch yn y gymuned a pherthynas gyda'r heddlu, y gwasanaeth tân, camddefnyddio alcohol a chyffuriau, cyfiawnder i ieuenctid a thai.

Gwneir yr adroddiad hwn dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor adrodd wrth y Cynulliad o dro i dro yn ychwanegol at gyflwyno ei adroddiad blynyddol.[1] Mae'n bwrw golwg gyffredinol ar flaenoriaethau strategol ac ar weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod yr Ail Gynulliad ac mae'n cynnwys materion allweddol y gall ei olynydd fod am eu hystyried yn ystod y Trydydd Cynulliad.

Gellir gweld copïau o holl adroddiadau, agendau, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau cyfarfodydd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:

Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

Mae sail statudol y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi'i amlinellu yn Rheol Sefydlog 9 y Cynulliad.

Gwaith a Chyrhaeddiadau

Gellir gweld amlinelliad o waith y Pwyllgor yn ystod yr Ail Gynulliad yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r cyfarfod llawn.

ADRODDIAD I'W GYFLWYNO I'R PWYLLGOR(AU) SY'N EI OLYNU

Mae'r eitemau canlynol yn rhai y mae'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi'u hystyried fel rhai pwysig. Yr ydym yn awgrymu y gall Pwyllgor(au) y dyfodol fod am ystyried y materion hyn wrth osod ei raglen waith ar gyfer y dyfodol yn y Trydydd Cynulliad.

---

[1] Lluniwyd Adroddiad y Pwyllgor 2003-07 i'w Gyflwyno i'r Trydydd Cynulliad ar wahân i'w Adroddiad Blynyddol 2006-07

Materion Strategol

Tai

Dynododd y Pwyllgor dai fel maes allweddol ar gyfer derbyn ei sylw cychwynnol yn 2003 ac mae'r farn hon ganddo hyd heddiw. Credwn fod tai yn faes trawsbynciol sy'n effeithio ar nifer o broblemau cymdeithasol. Fe awgrymwn y dylai Pwyllgor(au) olynol ystyried y meysydd canlynol wrth gyflawni ei waith craffu:

- Tai fforddiadwy – yn cynnwys Grantiau Tai Cymdeithasol, effaith y ddeddfwriaeth Hawl i Brynu a chyflwr a chyflenwad y tai cymdeithasol yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus;
- Grantiau ar gyfer gwella, addasu ac adnewyddu cartrefi;
- Deddfwriaeth ar dai symudol
- Tlodi o ran tanwydd / arbed ynni yn y cartref;
- Trosglwyddiad y stoc tai;
- Digartrefedd, yn cynnwys yr argymhellion o adroddiad adolygu polisi terfynol y Pwyllgor.

Plismona

Fe wnaeth y Pwyllgor ddau adolygiad mewn ymateb i *"Cau'r Bwlch"* ac er na fwriwyd ymlaen gyda'r rhaglen uno arfaethedig gan y Swyddfa Gartref, mae'r Pwyllgor wedi cadw diddordeb mewn ad-drefnu heddluoedd Cymru a'r torri gwasanaethau posibl oherwydd goblygiadau cost y rhaglen uno. Credwn y dylai'r canlynol gael eu monitro:

- Cost a goblygiadau uno
- Ariannu
- Nifer yr heddweision a'r staff a gyflogir gan yr heddluoedd gwahanol;

Diogelwch Cymunedol

Mae diogelwch cymunedol yn effeithio ar bawb ohonom ac rydym yn argymell y gallai'r Pwyllgor(au) sy'n olynu ystyried:

- ASBO (a gorchmynion eraill sy'n targedu ymddygiad anghymdeithasol)
- Ystadegau ar weithgarwch troseddol ac ymddygiadau anghymdeithasol
- Economi'r nos

Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r holl ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael eu trin yn deg ac mewn modd dynol ac mae wedi croesawu gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y sector hwn. Yr ydym yn falch o weld y gwaith yn dwyn ffrwyth yn y Strategaeth Cynhwysiant Ffoaduriaid ac awgrymwn fod diweddariadau rheolaidd ar gael yn arbennig yn gynnar yn oes y Trydydd Cynulliad.

Tlodi

Yr ydym yn cymeradwyo targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru i waredu tlodi, yn arbennig tlodi ymhlith plant, ac awgrymwn fod y Pwyllgor(au) yn y Trydydd Cynulliad yn parhau gyda'r gwaith hwn, yn benodol:

- Tystiolaeth ystadegol o ostyngiad mewn tlodi
- Gofalwyr a thlodi
- Tlodi o ran tanwydd
- Effaith cynlluniau tlodi plant
- Gor-ddyled

Carchardai a charcharorion

Yr ydym yn ymwybodol iawn o'r boblogaeth sy'n tyfu yn ein carchardai ac fe hoffem weld ffyrdd arloesol o ostwng hyn. Yr ydym yn ymwybodol o'r sefyllfa 'drysau troi' gydag ail-droseddu a chymeradwywn waith y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru (NOMS). Fe awgrymwn fod y Gwasanaeth a'i waith yn cael ei gynnwys mewn unrhyw graffu ar y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Yr ydym hefyd yn ystyried y materion canlynol fel rhai pwysig:

- Gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd ymhlith pobl sydd wedi cael dedfrydau gwarchodol;
- Poblogaeth carchardai, yn cynnwys carcharorion Cymraeg gaiff eu cadw mewn carchardai yn Lloegr neu Sefydliadau Troseddwyr Ifanc;
- Polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad ar adsefydlu carcharorion, carchardai agored a chefnogaeth iddynt yn y gymdeithas.

<u>Materion Manwl</u>

Cymunedau yn Gyntaf

Yr ydym wedi cadw diddordeb manwl yn y fenter hon a 'rydym yn argymell y meysydd canlynol ar gyfer craffu arnynt:

- Monitro a chynnydd yn erbyn y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru;
- Gwariant;
- Effaith (yn cynnwys effaith ar gyfer grwpiau penodol megis plant a dangosyddion a ddefnyddir i fesur effaith);
- Monitro prosiectau

Swyddfeydd Post

Yr ydym wedi bod yn cadw golwg ar faterion o ran swyddfeydd post ac wedi cefnogi nifer o ymgyrchoedd i gadw'r sefydliadau cymdeithasol hanfodol hyn yn agored yng Nghymru. Fe fyddem yn annog y Pwyllgor(au) olynol i gadw'r

diddordeb hwn yn arbennig o safbwynt canlyniad ymgynghoriad yr Adran Masnach a Diwydiant ar y Rhwydwaith Swyddfeydd Post a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2007.

Camddefnyddio Sylweddau

Yn dilyn yr adolygiad manwl a wnaethpwyd ar wasanaethau triniaeth a'r rhwystrau sy'n atal triniaeth, fe wnaethom ymgymryd ag adolygiad yn edrych at atal. Fe wnaethpwyd penderfyniad gennym i ohirio cwblhau'r adolygiad hwn ond credwn y dylai'r gwaith gael ei fwrw ymlaen oherwydd credwn y dylai gwaith atal gael ei annog yn yr addysg i beidio â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn bryderus iawn am y camddefnydd cynyddol o alcohol sy'n digwydd ac mae'n argymell fod y mater hwn hefyd yn cael ei drosglwyddo i'r Trydydd Cynulliad yn cynnwys:

- Cymariaethau o safbwynt dulliau gweithredu yng Nghymru a Lloegr;
- Targedau ar gyfer strategaeth camddefnyddio sylweddau yng Nghymru;
- Pryderon y cyhoedd am leoliad cyfleusterau camddefnyddio sylweddau;
- Ymchwil y Weithrediaeth yn yr Alban i'r defnydd o alcohol ar ôl y gwaharddiad ar ysmygu.

Undebau Credyd

Cred y Pwyllgor fod gan Undebau Credyd rôl ddiffiniedig mewn cymunedau a dymunwn weld cefnogaeth i'w rhwydwaith yn ehangu.

Adolygiadau Polisi:

Pe wnaeth y Pwyllgor dri adolygiad polisi yn ystod yr Ail Gynulliad:

Tai i Bobl Hŷn

Camddefnyddio sylweddau – gwasanaethau triniaeth

Digartrefedd ymhlith Pobl Ifanc

Yr ydym yn argymell fod Pwyllgorau'r dyfodol yn datblygu dull o graffu ar weithrediad argymhellion adroddiadau ar draws y portffolios perthnasol.

Materion trawsbynciol

Sipsiwn a Theithwyr
Croesawodd y Pwyllgor sefydlu'n ddiweddar yr Uned Sipsiwn a Theithwyr newydd. Yr ydym yn argymell fod materion yn ymwneud â sipsiwn a theithwyr yn parhau i gael eu monitro ar y cyd â'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

Datblygiad Cynaliadwy

Mae’r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb brwd yn effaith y polisi tai ar newid yn yr hinsawdd yn arbennig y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref a chynlluniau adeiladau isel o ran carbon. Yr ydym yn argymell fod hwn yn faes ar gyfer craffu pellach yn y Trydydd Cynulliad.

Materion Cyfle Cyfartal

Yr ydym yn argymell fod adroddiadau cynnydd blynyddol ar y cynlluniau cydraddoldeb a gyflwynwyd gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn cael eu hanfon ymlaen gan y Comisiwn Cydraddoldeb a’r Comisiwn Hawliau Dynol.

Yr ydym yn argymell hefyd fod y Pwyllgor(au) olynol yn ystyried materion cydraddoldeb yn eu rhaglen waith.

Materion Ewropeaidd

Mae’r Pwyllgor wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar faterion Ewropeaidd sy’n effeithio ar y portffolio. Argymhellwn fod Pwyllgor(au) y dyfodol yn parhau i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau sy’n effeithio ar eu gwaith.